# 5ed Cyfarfod y Grŵp Ecosystem Coetiroedd

# Ibers – Ystafell Williams Davies
# Dydd Iau 13 Ionawr 2011
# 10am – 3pm

<u>Yn bresennol</u>

| | |
|---|---|
| Chris Tucker – Cadeirydd | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Jim Latham | a Hilary Miller CCGC |
| Nigel Ajax Lewis | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Arfon Williams | RSPB (Reg Thorpe dirprwy) |
| Jane Holloway – Cofnodion | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| David Jenkins | Coed Cymru |
| Celia Thomas | Parc Cenedlaethol Sir Benfro |
| Richard Lucas | Prifysgol Cymru - Aberystwyth |

<u>Cofnodion</u>

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau gan

- Peter Bunting (Richard Lucas yn dirprwyo)
- John Healey
- Jerry Langford
- Emma Guy
- Richard Jones
- Sarah Mellor
- Chris Smith

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Cyfarfod Rhestr o Goetiroedd Hynafol yfory gyda Chris Tucker – yn gynt na'r disgwyl – yn barod erbyn diwedd Mawrth.

Adborth ar y rhestr adran 42 – rhywogaethau blaenoriaeth

Dolen gyswllt i dudalennau Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar Phytophthora ramorum isod

http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-85VENR

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker i gysylltu ag Andy Sowerby
Ymhen faint y gellir ailstocio ar ôl torri'r coed?

Pwynt Gweithredu – Jane – Ynghlwm wrth ebost
Dosbarthu rhestr Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gan Emma Guy

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker

Anfon papur yn diweddaru blaenoriaethau Coetiroedd at aelodau'r grŵp

Diweddaru Cynllun Gweithredu'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd

Richard Maxwell Lucas – Prifysgol Cymru Aberystwyth – diweddariad

- Mapio Byd-eang – gofyn am gymorth gan y grŵp
- Cyhoeddi papur Cyfnodolyn …………………………………………………………………….– Cyfnodolyn yn Gyfrinachol, ddim i'w gylchredeg (ynghlwm wrth yr ebost)

Map cynefinoedd i Gymru – mapio gwybodaeth ecolegol am gynefinoedd drwy synhwyro o bell – uwchraddio i gam 1 – mapiau manwl iawn o 2003-2006 cam 1 wedi eu rhyddhau 2012

Llinell sylfaen ar gyfer newid hinsawdd – a system fonitro ar gyfer bioamrywiaeth. Samplau ar gael yn mapio pob gwrych yng Nghymru. Gellir diweddaru mapiau picsel 5 medr.

Prosiect yr UE – edrych ar newidiadau yn aber afon Dyfi – system fonitro hirdymor – bydd yn adnodd da mewn 10/20 mlynedd.

Synhwyro ac Archwilio Golau (LiDAR) Mae cymwysiadau rheoli adnoddau yn perthyn i ddau gategori cyffredinol: 1) mapio llystyfiant a 2) mapio topograffig.

Mapio llystyfiant:

Defnyddir LiDAR i fesur nodweddion tri dimensiwn canopi o blanhigion a gall amcangyfrif strwythur fertigol cymunedau o lystyfiant.
Prosiect ar ddata LiDAR gyda'r RSPB yn edrych ar Lyn Efyrnwy – data daear – arddangosiad yn y cyfarfod nesaf. Gall LiDAR ystyried uchder coed – mesur biomas ac ati
Siâp coed – 1 isdyfiant – 2 isdyfiant ac ati

Sganio laser daearol – Mae sganio laser daearol yn darparu delweddau tri dimensiwn manwl gywir sy'n galluogi dylunwyr i brofi a gweithio'n uniongyrchol gydag amgylchiadau yn y byd go iawn drwy weld a thrin cymylau trwchus o bwyntiau mewn meddalwedd cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur. Drwy anfon pelydryn laser dros olygfa neu wrthrych, mae'r sganiwr laser yn gallu recordio miliynau o bwyntiau 3D. Gellir mewnforio'r mesuriadau X,Y,Z hyn i feddalwedd cymwysiadau CAD 3D a'u dangos ar fonitor cyfrifiadur fel "cwmwl pwyntiau" sydd â phriodoleddau ffotograffig yn cael eu portreadu mewn un lliw, graddlwyd, lliw ffug neu hyd yn oed wir liw. Gan fod pob pwynt sganio laser yn 3D, gellir eu gweld, eu harchwilio, eu mesur a'u dadansoddi fel modelau 3D.

- Asiantaeth yr Amgylchedd wedi hedfan dros 8% o Gymru
- Hoffi cael 3D a 2D fel map cyfunol – llinell sylfaen o 5 mlynedd

Pwynt Gweithredu – Grŵp Cyfan
Gweler sleid PowerPoint ynghlwm – hoffi i'r grŵp lenwi'r tabl – erbyn diwedd Ionawr.

LiDAR yn costio £5 miliwn
Data Mapio Cynefinoedd yn cael eu cadw gan CCGC

---

3. Eitemau PBC ar gyfer grwpiau ecosystem - Chris Tucker
Gan gynnwys camau gweithredu o'r:
Grŵp Cadeiryddion Ecosystemau – Diana Reynolds
Gofynnwyd i ni nodi dim mwy na thri chyswllt allweddol o'r rhestr, (wedi'u hanfon gyda'r agenda) y byddech yn hoffi gweithio gyda hwy er mwyn ceisio cael gwell canlyniadau i ecosystemau/maes cyfrifoldeb eich grŵp.

Fel grŵp rhestrwch 3 cyswllt allweddol a phwy o'n grŵp fydd yn siarad / anfon e-bost atynt gan ddibynnu ar y themâu sydd i'w gweithredu - Brawddeg neu baragraff byr ar gyfer pob thema am ddim mwy na thri phwnc allweddol y byddech yn hoffi dechrau trafodaethau gyda hwy.

Pwynt Gweithredu – Y Grŵp Cyfan
Gellid dewis y tair thema isod, anfonwch e-bost os byddai'n well gennych rywbeth arall. Chwilio am wirfoddolwyr i weithredu hyn gyda phersonau cyswllt allweddol perthnasol

Tair thema i Diana Reynolds

- Synhwyro o bell / pennu llinell sylfaen ar gyfer cyflwr
- Glastir – targedu a dosbarthu gwybodaeth
- Canllawiau – bwlch – sut i wneud/a diweddaru? Nid ar gyfer pob math o rywogaeth – 1 â rhestr o wahanol rywogaethau sy'n gysylltiedig â math gwahanol o goetir – grŵp yn edrych ar y canllawiau presennol

Y tri Chyswllt a ddewiswyd oedd:

- Pennaeth yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr
- Pennaeth yr Is-adran Datblygu Ffermio
- Pennaeth – Uned Polisi Gwledig

Anfonwch e-bost os yw rhywun arall yn fwy priodol

Grŵp Polisi – e-bost rheoliadau asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd
Pwynt Gweithredu – Chris Tucker
Grŵp Llywio – anfon e-bost yn nodi'r camau gweithredu – Chris Tucker

---

4. Grantiau Rheoli Coetir Glastir - Patrick Green, Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Patrick Green – rhoddodd gyflwyniad ar grantiau Rheoli Coetir Glastir.
Dolen gyswllt i dudalennau Glastir ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth
http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6J2GXD

Pwynt Gweithredu – Jane Holloway – Wedi ei wneud
Anfon y cyflwyniad at aelodau'r grŵp

Dolen gyswllt i Arweiniad ar gyfer cynyddu amrywiaeth rhywogaethau coed
http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8BAJBG

Trafodaeth gyffredinol am y cynllun Glastir

- Argymhellodd Celia Thomas fod y grŵp yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad / Glastir gael data sydd ar gael gan Ganolfannau Cofnodion Lleol
- Defnyddio gwybodaeth y Ganolfan Cofnodion Lleol i dargedu – yn fwy strategol
- Cwestiwn – beth fydd yn digwydd os bydd gormod eisiau ymuno â'r cynllun?
- Edrych a thargedu blaenoriaethau h.y. Coetiroedd i Gymru/adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol, rhywogaethau blaenoriaeth coedwigoedd ac ati i lawr i goedwigaeth gorchudd di-dor.

- Hyfforddiant – Mae elfen hyfforddiant yn Glastir – Arfon Griffith yn cydgysylltu hyn.
- Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r grŵp gael Cynllun Cyfathrebu i ledaenu'r gair am Glastir (Taflen ar gael â gwybodaeth gyffredinol) - Dylai'r grŵp hwn hyrwyddo'r syniad i grwpiau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.
- Wedi cael tua 2900 o geisiadau hyd yn hyn
- Rheoli gwiwerod llwyd
- Ym mhle fyddech chi'n hoffi targedu rheoli gwiwerod llwyd?
- Safleoedd coetir brodorol

Pwynt Gweithredu – Chris Tucker i gysylltu â Patrick Green
Gofyn am eglurhad ynglŷn â'r – elfen wedi'i thargedu
Sgorau pwysiad – ffermwyr sydd heb ymuno â Glastir ac ati.

5. Diweddariad blaenoriaethu coetir - Jim Latham -

Darparu canllawiau – darparu drwy'r rhyngrwyd – cefnogaeth gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol – bwndel o wybodaeth am FfAN – gwaith cadwraeth ar y ddaear – gwybodaeth wedi ei mapio – dim yn cael ei adael allan. 3 lefel

1 Mapiau o'r holl adnoddau ac ardaloedd rhyngddynt (cysylltedd)
2 Clystyrau allweddol o safleoedd – yr un lefel â Glastir
3 Lefel – rhaid i bob grŵp Ecosystem nodi prosiectau

Angen dadansoddi beth fydd yn cael ei ddangos ar y map

Dangosodd Jim Fap enghreifftiol a ddefnyddiwyd ar gyfer Glastir pan oedd coetir yn cael ei ddefnyddio fel elfen wedi'i thargedu.

Trafod materion yn ymwneud â Jac y Neidiwr
Coetir Gorlifdir – angen ymdrin â hyn yn uwch i fyny'r dalgylch
Gwiwerod coch
Coetiroedd wedi'u targedu

Pwynt Gweithredu Grŵp Cyfan
Gofynnodd Jim i'r grŵp roi enghreifftiau ar gyfer lefel 3 iddo ef – nid coetiroedd / coetir pori yn unig, ond hefyd rhywogaethau, rhywogaethau o goed, infertebratau, planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol – gwneud yn ôl maint – dewis 2 o'r planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol mwyaf. Rhododendron
Os ydych wedi rhoi manylion i Jim a wnewch chi hefyd anfon map a hanner tudalen o wybodaeth.

Amserlen – anfon enghreifftiau cyn gynted ag y bo modd

Hilary Miller – Diwygio'r Cynllun Gweithredu Cynefinoedd coetir pori a thir parc.

Cydgysylltu'r wybodaeth am y diffiniad diwygiedig – mae'n canolbwyntio mwy ar nodwedd strwythurol yn hytrach na'r math o lystyfiant. Cwestiynu rhywogaethau – Tir parc a choetir pori – Coed hynafol neu hŷn – pwysigrwydd coed marw – cynefin micro

Diffiniad ychydig yn wahanol - lefel y DU yna'r wlad yn gweithredu - ar lefel fanylach.

Bydd Hilary yn anfon gwybodaeth at bawb ar ôl y cyfarfod nesaf (yn ystod y misoedd nesaf)

## 6. Cynllun Gweithredu - Chris Tucker

Rhai newidiadau, dyddiadau ac ychwanegu cynllun cyfathrebu ar gyfer Glastir

## 7. Unrhyw Fater Arall

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Ym Mawrth – Chris i drafod dyddiadau gyda Richard Lucas